

UTI 9'

Safonau Allweddol ar gyfer Atal a Thrin a Rheoli UTI



Atal

Safon 1 – Mae polisiau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu ar gyfer gofalu am gleifion ag anymataliaeth wrinol a'i reoli.

Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Proses asesu ymataliaeth a darparu a defnyddio cynhyrchion cyfyngu.
- Defnydd ac argaeledd sganwyr pledren ym mhob man cleifion mewnol i gynorthwyo gwneud penderfyniadau
- Llwybr gofal Cathetr Wrinol (UC) sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi'r broses asesu risg a'r angen am fewnosod UC.
- Polisiau atal a rheoli heintiau sy'n cefnogi arfer gorau e.e. ANTT, SICP
- Prosesau archwilio i fonitro cydymffurfiaeth â pholisiau

Safon 2 - Mae'n rhaid i'r holl staff clinigol sy'n gosod UC ac sy'n gofalu am gleifion ag UC gael hyfforddiant digonol.

Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad cymhwysedd 4 blynedd ar gyfer y rhai sy'n gosod cathetrau ac asesiad cymhwysedd yn ANTT
- Hyfforddiant gorfodol cyfredol mewn atal a rheoli heintiau.
- Cadw cofnodion cywir o reolaeth cathetr h.y. dyddiad gosod, dyddiad disgwylledig/gwirioneddol ei dynnu, cyfiawnhad dros osod, asesiad dyddiol o'r angen a manylion dyfais feddygol.
- Prosesau archwilio i fonitro cydymffurfiaeth

Safon 3 - Bydd gan bob claf basbort UC trosglwyddadwy:

Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cofnod cywir parhaus o reolaeth cathetr.
- Gwybodaeth i gleifion a/neu ofalwyr am eu dyfais a sut i'w rheoli
- Prosesau archwilio i fonitro cydymffurfiaeth

Safon 4 - Rheolir hydradiad da wrth atal UTI yn unol ag arfer gorau a chanllawiau cenedlaethol:

Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg o anghenion unigol ar gyfer ymyriadau hydradu*
- Ymgysylltu ag egwyddorion 'ymgyrch dŵr sy'n eich cadw'n iach' Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mhob lleoliad*
- Cydymffurfio â 'Safonau Maeth ac Arlwyio Cymru Gyfan ar gyfer Darpariaeth Bwyd a Hylif i Gleifion Mewnol Ysbytai' (2011)*
- Cynnwys y claf, a lle bo'n briodol, ei berthnasau a'i ofalwyr, wrth ddeall manteision hydradu da*
- Cofnodi cydbwysedd hylif yn gywir fel y gellir asesu hydradiad yn gywir*
- Darparu offer a chyfarpar yfed sy'n caniatáu i'r claf gymryd rhan mewn cynnal ei hydradiad ei hun*
- Prosesau archwilio i fonitro cydymffurfiaeth*

Samplu a Diagnosteg

Safon 5 – Mae diagnosis, pan amheuir UTI, yn cydymffurfio â meini prawf cydnabyddedig:

Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Hyfforddiant gan Gomisiwn Iechyd Cymru (CIC) mewn asesu arwyddion a symptomau UTI yn gywir yn unol â meini prawf diffiniedig*
- Ystyried defnyddio algorithm i gynorthwyo gwneud penderfyniadau*
- Cofnodi'r asesiad o UTI yn gywir a'r camau gweithredu dilynol a gymerwyd.*
- Osgoi defnyddio ffyn trochi ar gyfer diagnosis UTI ym mhob grŵp cleifion heblaw'r rhai a bennwyd ymlaen llaw*

Safon 6 – Mae samplu wrin, lle yr amheuir UTI, yn cydymffurfio ag arfer gorau.

Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Hyfforddiant gan CIC mewn trin, casglu, storio a chludo sbesimenau yn gywir*
- Polisi ar gyfer trin, casglu, storio a chludo sbesimenau yn gywir*
- Cadw at Weithdrefn Labordy gyfredol SM1B41: ymchwilio i algorithm wrin i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau*
- Prosesau archwilio i fonitro cydymffurfiaeth*

Triniaeth a Rheoli

Safon 7 - Bydd triniaeth wrthfotig ar gyfer heintiau'r llwybr wrinol yn dilyn canllawiau triniaeth 'Cymru Gyfan'.

Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cadw at y cyffurlyfr cenedlaethol ar gyfer rhagnodi ym maes gofal sylfaenol neu eilaidd fel y bo'n briodol*
- Ymarfer egwyddorion gorau stiwardiaeth gwrthficrobaidd e.e. 'dechrau'n gall ac yna canolbwyntio'*

Safon 8 - Bydd proffylaxis gwrthfotig ar gyfer UTI yn dilyn canllawiau triniaeth ac yn cynnwys:

- a. *Cadw at fformiwlâu cenedlaethol ar gyfer rhagnodi ym maes gofal sylfaenol neu eilaidd fel y bo'n briodol*
- b. *Adolygu'r claf bob 6 mis i leihau'r risg o fwy o ymwrthedd gwrthficrobaidd.*
- c. *Prosesau archwilio i fonitro cydymffurfiaeth*

Mesur Canlyniadau

Safon 9 - Bydd gwyliadwriaeth genedlaethol orfodol o facteremia *Escherichia coli* (E.coli) yn cael ei ddefnyddio i lywio strategaethau lleihau UTI a bydd yn cynnwys:

- a. *Ymchwilio i bob achos ac asesiad i bennu ffynonellau sy'n gysylltiedig ag UTI.*
- b. *Defnyddir arolwg cyffredinolrwydd pwynt (PPS) blynyddol o ragnodi i lywio cydymffurfiaeth rhagnodi mewn lleoliadau gofal sylfaenol ac eilaidd*